# Diweddariadau i wefannau'r Cyngor Ysgolion Sul

Mae'r gwaith o ddatblygu ein gwefannau'n parhau.

Ar wefan ysgolsul.com mae'r adrannau newydd a ychwanegwyd yn ddiweddar yn cynnwys:

- syniadau a chanllawiau ar sut i weddïo gyda phlant
- adran ar ddarllen y Beibl gyda phlant ac ieuenctid
- gwybodaeth am fedydd, a'r adnoddau cefnogol sydd ar gael
- canllawiau ar gynnal sesiynau derbyn a chonffyrmasiwn, ynghyd â rhestr o adnoddau cefnogol
- adran ar waith y Blynyddoedd Cynnar yn yr eglwys: grwpiau Ti a Fi ayyb, yn cynnwys canllawiau a syniadau.

Ar wefan cristnogaeth.cymru mae adrannau newydd yn cynnwys:

- ffydd a chefn gwlad: rhestr o'r gefnogaeth sydd ar gael gan wahanol fudiadau ac eglwysi
- ffydd a chwaraeon: gwybodaeth am fudiadau sy'n weithgar yn y maes
- newid hinsawdd: gwaith A Rocha a sawl mudiad ac enwad arall sy'n weithgar yn y maes
- byw gyda dementia: cefnogi a chodi ymwybyddiaeth o'r cyflwr o fewn bywyd ein heglwysi
- technoleg yn yr eglwys: syniadau, canllawiau a gwybodaeth am offer ac adnoddau
- cyrsiau cyflwyno'r ffydd: rhestr o'r cyrsiau sydd ar gael yn y Gymraeg ar hyn o bryd.

**Teledu Cristnogol Cymru** - rhan o wefan cristnogaeth.cymru
Mae ein sianel deledu ddigidol yn tyfu i gynnwys y sianeli newydd isod:

- y Plygain (yn yr adran Nadolig): gwasanaethau plygain, hanes, cefndir a ffilmiau plygain, cyfres o sgyrsiau gan E. Wyn James ac enghreifftiau o bartïon yn canu carolau plygain
- podlediadau Cristnogol, gan gynnwys y Cwmni Bach (Undeb Annibynwyr Cymru)
- 'Cwestiwn' ar lein: cwrs archwilio ffydd mewn 6 sesiwn










- cwrs adfent newydd gan yr Eglwys yng Nghymru, yn cynnwys 6 astudiaeth Feiblaidd newydd ar gyfer 2024.

Bellach mae dros 8,000 o eitemau ffilm Cymraeg Cristnogol i'w canfod ar ein sianel deledu.

Ar wefan gair.cymru mae cyfres Clwb plant drwy'r post, sef 63 pecyn o werslyfrau ysgol Sul, ar gael yn ddwyieithog erbyn hyn. Cofiwch fod adnoddau'r Gwir Ffordd hefyd ar gael yn Gymraeg a Saesneg.

Ceir hefyd adran o weddïau newydd sy'n dilyn y Llithiadur dros gyfnod o 3 blynedd – dros 500 o weddïau i'w lawrlwytho, yn rhad ac am ddim, yn cynnwys holl Suliau blwyddyn A, B a C.

Adran fywgraffyddol sy'n cynnwys hanes 200 o Gristnogion.

Adran yn cynnwys 30 gwasanaeth ar gymeriad Iesu a 30 gwasanaeth ar natur Duw.

Ar wefan gobaith.cymru mae nifer o ganeuon Cristnogol Cymraeg yn ymddangos yn rheolaidd. Ewch draw i'r wefan ac fe welwch y caneuon diweddaraf ar y dudalen hafan.

**Cais am wirfoddolwyr a noddwyr**
Mae'r gwaith o gynnal pum gwefan yn gostus – o ran amser ac arian. Os oes 'na gefnogwyr neu noddwyr yn barod i'n cynorthwyo, byddem yn falch o glywed gennych. Mae llawer o gamau gwaith yn y broses o baratoi adnoddau : ysgrifennu a chyfieithu, golygu, cysodi a dylunio, prawfddarllen, gwirio Beiblaidd ayyb, ac mae hynny ym maes print a ffilm. Os oes gennych amser sbâr i'w roi er mwyn ein cynorthwyo ag unrhyw agwedd o'r uchod, byddwn yn hynod falch o glywed gennych.

*Aled Davies*
aled@ysgolsul.com

Cyhoeddir *Cenn@d* ar y cyd gan Eglwys Bresbyteraidd Cymru ac Undeb Bedyddwyr Cymru.
Oni nodir yn wahanol, nid yw barn cyfranwyr *Cenn@d* yn cynrychioli barn swyddogol Eglwys Bresbyteraidd Cymru nac Undeb Bedyddwyr Cymru. Gallwch anfon eich cyfraniadau / gohebiaethau / ymholiadau at:
huw@cennad.cymru | aled@ysgolsul.com
www.cennad.cymru CennadCymru @CennadCymru